

**Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin**

**Dydd Iau, 16 Chwefror 2017**

**Canolfan Hamdden Caerfyrddin, 6pm**

**Yn bresennol:**

**Aelodau:**

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd  
Karen Burch (KB) - Is-gadeirydd  
Geoff Williams (GW)  
Jane Evans (JE)  
Martin Murray (MM) (Cynrychiolydd Cynnal a Chadw Cyngor Sir Caerfyrddin)  
Jillie Gardiner (JG)  
Glyn Evans (GE)  
Richard Leggett (RL)

**Ysgrifennydd (dros dro)**

Caroline Ferguson (CF) (Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin - Dros Dro)

**Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Y Cyhoedd**

Martin Dolan (MD) Capita Consultancy  
John Maudsley (JM) Grŵp Llywio Cymdeithas Teithwyr Rheilffordd Calon Cymru (HOWLTA)  
Mike Watson (MW) Grŵp Llywio Cymdeithas Teithwyr Rheilffordd Calon Cymru  
Simon Charles (SC) Rheolwr Strategaeth Drafnidiaeth ac Isadeiledd - Cyngor Sir Caerfyrddin  
Jason Lawday (JL), Cynorthwydd Mynediad i Gefn Gwlad  
Lucy Pugh (LP) Cynorthwydd Mynediad i Gefn Gwlad

**Ymddiheuriadau (Aelodau) Ymddiheuriadau (Ymgynghorwyr/Sylwedyddion)**

David Stacey (DS)  
Glyn Jones (GJ)  
Gerald Brown (GB)  
Caroline Evans (CE)  
Eric Davies (ED)  
Chris Rankin (CR)  
Keith Morgan (KM)

EITEM	CAMAU I'W CYMRYD
<b>Eitem 1 Gair o groeso a chyflwyniad MH</b>  Estynnodd MH groeso i bawb i'r cyfarfod. Cyflwynodd pawb eu hunain.	
<b>Eitem 2 Cyflwyniad gan Simon Charles</b> (symudwyd o eitem 3 ar yr agenda)  Rhoddodd SC a MD fraslun o'r sefyllfa bresennol o ran Teithio Llesol a Map o Rwydwaith Integredig Sir Gaerfyrddin.	

Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin yn un o bum Awdurdod Lleol yng Nghymru i gael ei Fap Llwybrau Presennol wedi'i gymeradwyo ar y cynnig cyntaf ar ôl ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Y cais oedd Cam 1 o'r broses Teithio Llesol.

Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir Caerfyrddin a Capita yn gweithio gyda'i gilydd ar gam nesaf y Ddeddf Teithio Llesol sy'n cynnwys cynhyrchu Mapiau Rhwydwaith Integredig. Caiff y Mapiau hyn eu llunio gyda'r nod o gysylltu ardaloedd poblog â chyflogwyr.

Fe fydd ymgynghoriad o 12 wythnos (26 Mehefin – 22 Medi 2017) mewn perthynas â Mapiau Rhwydwaith Integredig a gall SC ddefnyddio'r data a gasglwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriad mewn ceisiadau grant.

Hefyd fe fydd archwiliadau o lwybrau cerdded a beicio.

Pan fydd yn gyflawn, bydd yr holl wybodaeth yn cael ei llwytho ar system Llywodraeth Cymru.

*Holodd GW a fydd y gwaith o ran gwella cysylltiadau cerdded, yn enwedig i ysgolion, yn cael ei integreiddio i gyd-fynd â chyfyngiadau parcio.*

*SC – gweithir ar y cyd ag ysgolion i hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy unwaith y bydd gwell seilwaith ar waith.*

*Mynegodd JG nad yw rhai pobl yn fodlon cerdded yn rhy bell.*

*SC – y nod yw targedu'r rheiny sydd o fewn pellter realistig.*

*Gofynnodd KB a fydd modd dosbarthu cynllun.*

*MD – gellir cylchredeg dolen i agor y cynlluniau i Aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol unwaith y bydd y gwaith o wella'r manylion wedi ei gwblhau.*

*Tynnodd MH sylw at ddiffyg ymgynghori â'r Fforwm Mynediad Lleol mewn perthynas â'r gwaith Teithio Llesol. Gofynnwyd am gael gweld y Map Llwybrau Presennol ond ni chafodd ei ddarparu.*

*Ymddiheurodd SC ac ychwanegodd y byddid yn gwahodd sylwadau ar y Mapiau Rhwydwaith Integredig.*

*Awgrymodd GW y dylid cynnwys Llwybr Dyffryn Tywi o dan Deithio Llesol.*

*SC – rhoddir pwyslais ar ardaloedd trefol sydd â dros 2000 o drigolion; nid yw Llandeilo yn gymwys.*

*Ychwanegodd MD y gellid cynnwys llwybrau sydd yn yr arfaeth.*

Aeth SC yn ei flaen i drafod Llwybr Dyffryn Tywi.

Amcan y gwaith o greu llwybr yw datblygu “cyfleuster teithio llesol o'r radd flaenaf, a ddefnyddir ar y cyd ag eraill ac sy'n cynnig cyfleoedd teithio cynaliadwy, gwell diogelwch i seiclwyr yn yr ardal (yn enwedig beicwyr y ffordd sy'n defnyddio'r A40), hwylustod, gwelliannau o ran iechyd a chyflogaeth, a mewnfuddsodiad.”

**Capita**

Mae cyllid Llywodraeth Cymru eisoes wedi cael ei hawlio ar gyfer y rhannau ar ochr y ffordd yn Abergwili. Rydym yn parhau i fynd ar drywydd cyllid arall gyda'r bwriad o ddechrau adeiladu o ddifrif y flwyddyn nesaf.

Cynhelir gweithdai i wahodd diddordeb/ymwneud gan fusnesau.

Awgryma astudiaethau y gallai'r datblygiad greu hyd at 40 o swyddi a chynhyrchu incwm gwerth £1-2 miliwn i'r ardal.

*Holodd JG ynghylch cael mynediad i'r llwybr ar gefn ceffyl.*

*SC – ar hyn o bryd dim ond mynediad i gerddwyr a beicwyr sydd wedi cael ei gytuno arno ac edrychir ar rannau o'r llwybr lle gellir cael mynediad posibl ar gefn ceffyl. Mae'r trafodaethau â pherchenogion tir wedi bod braidd yn anodd ac nid yw llawer ohonynt yn awyddus ynghylch y syniad o fynediad i geffylau.*

*Holodd CF ynghylch y deunyddiau a gynigir ar gyfer wyneb y llwybr.*

*SC – nid yw'r penderfyniadau o ran y wyneb wedi dod i derfyn ond mae'n debygol mai cymysgedd o darmac a llwch cerrig/graeon fydd e.*

*Holodd GW ynghylch y risg o ran llifogydd.*

*SC – nid yw'r arglawdd rheilffordd a ddefnyddir ar gyfer y llwybr wedi dioddef llifogydd yn hanesyddol.*

*Holodd GW ynghylch y llwybr wrth safle'r ysgol newydd.*

*SC – y cynnig presennol yw cyfeirio'r llwybr o gwmpas ymyl maes parcio'r ysgol ac yna defnyddio'r llwybr cyhoeddus i ddychwelyd i linell y rheilffordd wrth ochr safle Mart Ffairfach.*

*Holodd MM ynghylch y trefniadau o ran cynnal a chadw'r llwybr.*

*SC – Nid yw'r gwaith cynnal a chadw ar gyfer y dyfodol wedi ei drefnu'n derfynol ond mae ymrwymiad gan Gyngor Sir Caerfyrddin i'w ariannu'n ganolog.*

*Holodd GW ynghylch y cyfleusterau parcio ar gyfer cerddwyr.*

*SC – ystyrir cynnwys 'canolfannau' ar hyd y llwybr gyda darpariaeth ar gyfer parcio, o bosibl ar y cyd â busnesau lleol.*

*Holodd GW ynghylch y risg o ran llifogydd yn Nantgaredig a Felin-wen, lle nad oes fawr o arglawdd rheilffordd ar ôl.*

*SC – Mae rhai bylchau lle bydd angen gwaith.*

*Holodd MH ynghylch y ffigurau incwm a luniwyd.*

*SC – gwnaed arfarniad economaidd ar gyfer y cynllun.*

*Roedd MH yn bryderus na fydd beicwyr yn cynhyrchu'r incwm a ragwelir am nad ydynt yn aros ac yn defnyddio'r cyfleusterau lleol. Holodd hefyd ymhle y disgwyliad i'r swyddi gael eu creu.*

<p>SC – ceir rhagor o fanylion yn yr achos busnes; gellir anfon hwnnw at y Fforwm Mynediad Lleol. Mae creu'r llwybr yn cyd-fynd â Strategaeth Cerdded a Beicio Sir Gaerfyrddin drwy gysylltu llwybrau ledled y sir ac annog beicwyr i aros a defnyddio'r holl gyfleusterau.</p> <p>Gwnaeth JG ategu pryder MH o ran yr awgrym na fydd beicwyr yn defnyddio cyfleusterau lleol ac felly ddim yn cynhyrchu incwm.</p> <p>Ychwanegodd MH nad yw'r ffigurau'n ymddangos yn realistig.</p> <p>Rhoddodd GW safbwynt cerddwr ar y cynllun arfaethedig – y farn yw bod hen linellau rheilffordd yn ddiflas a heb fawr o olygfeydd.</p> <p>SC – mae'r golygfannau ar hyd y llwybr yn destun trafod ar hyn o bryd ac mae cynlluniau ar gyfer seddi.</p> <p>Ychwanegodd MM y gallai cylchdeithiau gynnig cysylltiadau posibl i'r cynllun.</p> <p>SC – ar hyn o bryd rydym yn edrych ar y rhwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus o gwmpas y llwybr gyda'r nod o wneud gwelliannau, os llwyddir i gael cyllid.</p> <p>Holodd RL, gyda phwy yr edrychir ar y llwybrau sy'n croesi? Cyn belled â'i fod yn gwybod ni chysylltwyd â'r Cerddwyr/Ramblers ac nid ydynt wedi derbyn ymgynghoriad; "gallai pobl leol â gwybodaeth leol helpu."</p> <p>SC – mynychir cyfarfod y Fforwm Mynediad Lleol yn rhannol er mwyn gwneud cysylltiadau.</p> <p>Dywedodd JG fod y diffyg ymgynghori â'r Fforwm Mynediad Lleol mewn perthynas â'r cynllun yn groes i'r canllawiau statudol cyfredol.</p> <p>SC – nid oes dyletswydd statudol i ymgynghori â'r Fforwm Mynediad Lleol ond bydd digwyddiadau ymgynghori yn parhau i ddigwydd a rhoddir gwybod i'r Fforwm Mynediad Lleol drwy CF.</p> <p>Holodd KB ynghylch y ddarpariaeth ar gyfer marchogaeth ar hyd y llwybr.</p> <p>SC – edrychir ar gyfleoedd posibl ar hyn o bryd.</p> <p>Holodd KB pa feini prawf a ddefnyddir i bennu eu bod yn addas.</p> <p>SC – mae llwybrau marchogaeth eraill wedi cael eu mapio yn yr ardal; rhoddir ystyriaeth i farn y perchenogion tir yr effeithir arnynt; byddai arbenigedd marchogaeth yn werthfawr.</p> <p>Cynigiodd KB helpu. Holodd hefyd faint o'r tir yr effeithir arno fydd yn cael ei brynu gan Gyngor Sir Caerfyrddin.</p> <p>SC – prynir llai na 40%, bydd dros 60% yn parhau mewn dwylo preifat.</p> <p>Holodd RL ynghylch y Prosesau Cyfreithiol a ddefnyddir i greu a chynnal y llwybr.</p> <p>SC – cynigir bod cymysgedd o brynu gorfodol a chytundebau mynediad caniaaol.</p>	<p>SC</p> <p>CF</p> <p>KB</p>
--	-------------------------------

*Holodd MH pwy oedd wedi symbylu'r cynllun? Ai beicwyr? Ydy beicwyr wedi cytuno bod eisiau'r llwybr arnynt?*

*SC – yn wreiddiol yn ôl yn 2003 roedd yn fenter a arweiniwyd gan Sustrans. Mae grwpiau beicio wedi bod ynghlwm â'r prosiect yn ddiweddar.*

*Holodd MH a yw'r cynllun yn cael ei arwain gan wleidyddion neu feicwyr.*

*SC – mae angen cefnogaeth wleidyddol ar gynlluniau ar y raddfa hon bob amser ond mae grwpiau defnyddwyr hefyd wedi dangos brwdfrydedd.*

*Mynegodd MM y farn, os oedd Sustrans wedi dynodi'r angen yn wreiddiol yna'r tebygrwydd yw y byddai beicwyr yn elwa ar y cynllun. Dim ond manteision sydd i dynnu beicwyr a cherddwyr oddi ar y prif ffyrdd, yn enwedig yr A40.*

*Dywedodd GW os nad yw'r llwybr yn un penodedig ni fyddai arweinwyr lleol y Cerddwyr wedi'u hyswiro i arwain teithiau ar ei hyd.*

*Dywedodd JG ei bod yn foisol anghywir peidio cynnwys yr holl ddefnyddwyr yn achos cynllun o'r maint hwn.*

*SC – dywedodd eto y bydd cyfleoedd ar gyfer defnydd ehangach yn cael eu harchwilio.*

*Holodd KB ynghylch sut caiff y cynllun ei ariannu.*

*SC – sicrhawyd peth arian yn barod. Mae'r Gronfa Datblygu Gwledig, arian yr Undeb Ewropeaidd a chyfalaf Cyngor Sir Caerfyrddin yn ffynonellau cyllid posibl a ddynodir ar hyn o bryd ar gyfer cwblhau'r cynllun, ond ni chafwyd y cyllid llawn hyd yn hyn.*

### **Eitem 3 Cyflwyniad gan Capita ynghylch Adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (symudwyd o eitem 2 ar yr agenda)**

Rhodddwyd cyflwyniad (ynghlwm)

*Holodd GW ynghylch sut y caiff rhanddeiliaid eu nodi.*

*MD – mae rhestr gyflawn yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy presennol; byddant yn gweithio gyda CF i nodi unrhyw rhanddeiliaid ychwanegol.*

*Gofynnodd JG am i'r Fforwm Mynediad Lleol fod yn rhan o'r broses adolygu ynghynt na'r digwyddiad cyffredinol i rhanddeiliaid.*

*MD – gellid trefnu cyfarfod ag is-bwyllgor o'r Fforwm Mynediad Lleol cyn y digwyddiad i rhanddeiliaid. Ymarfer gorchwyl a gorffen fyddai hwn.*

*Ychwanegodd GW bod yn rhaid i unrhyw adborth gan y Fforwm Mynediad Lleol/Rhanddeiliaid fod wedi'i resymu'n dda.*

*Roedd KB o'r farn ei bod yn bwysig nad yw unrhyw holiaduron a ddefnyddir fel rhan o'r broses yn arwain at atebion penodol.*

**CF/Capita**

<p><i>MD - defnyddir cyfuniad o gwestiynau agored a chaeedig.</i></p> <p><i>Gofynnodd JG a fydd gwybodaeth ynghylch yr adolygiad yn cael ei chyhoeddi ar-lein yn unig.</i></p> <p><i>MD – bwriadwn roi gwybodaeth mewn llyfrgelloedd lleol/canolfannau cymunedol.</i></p> <p><i>Holodd RL ynghylch yr union ddyddiad ar gyfer cyhoeddi'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy newydd.</i></p> <p><i>MD/CF – nid yw'r union ddyddiad wedi'i bennu hyd yn hyn; rhywbryd ym mis Ionawr 2018.</i></p> <p><i>MD – Mae angen i'r ddogfen newydd gydbwysu uchelgais a realaeth.</i></p> <p><i>Gofynnwyd i'r aelodau wirfoddoli ar gyfer is-bwyllgor o'r Fforwm Mynediad Lleol at y diben o adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.</i></p> <p><i>Gwirfoddolodd KB (marchogaeth), GW (cerddwr), MH (defnyddiwr 4&amp;4), JG (gweithredwr busnes twristiaeth). CF i fod yn bresennol fel cynrychiolydd Cyngor Sir Caerfyrddin. CF i ddynodi pwy yw cynrychiolydd y perchennogion tir, ei ychwanegu at y rhestr ac yna anfon y manylion cyswllt at MD. Angen trefnu dyddiad y cyfarfod hefyd.</i></p>	<b>CF</b>
<p><b>Eitem 4 Cyflwyniad gan Is-bwyllgor Llwybr Rheilffordd Calon Cymru</b></p> <p>Rhoddodd John Maudsley a Mike Watson gyflwyniad byr i gyflwyno Grŵp Llywio Cymdeithas Teithwyr Rheilffordd Calon Cymru ac i amlinellu'r llwybr a gynigir, yn ogystal ag esbonio'r trefniadau ariannu torfol cysylltiedig sydd ar waith i helpu â gwelliannau a'r gwaith o gynnal a chadw.</p> <p><i>Holodd JE a edrychwyd ar gyfleoedd cyllido eraill ar gyfer y llwybr.</i></p> <p><i>MW – byddai diddordeb ganddo mewn clywed am bosibiliadau eraill.</i></p> <p>Rhoddodd JE ei manylion fel y cynrychiolydd Cymdeithas Ceffylau Prydain oherwydd bydd y llwybr yn defnyddio llwybrau ceffyl felly gellid defnyddio arian Cymdeithas Ceffylau Prydain.</p> <p><i>Ychwanegodd MM ei bod yn braf clywed bod arian ar gyfer cynnal a chadw'r llwybr yn y dyfodol oherwydd nid felly y mae hi'n fynych.</i></p> <p><i>Gofynnodd MH a oedd taith y llwybr wedi'i hamseru i gyd-fynd â'r trenau.</i></p> <p><i>JM – nid yw'n bosibl amseru'r daith yn y modd hwn ond bydd pob rhan yn gorffen wrth gyfleusterau a bydd lletyau gwely a brecwast/busnesau lleol yn cael eu hyrwyddo fel rhan o'r cynllun.</i></p> <p><i>Rhoddodd MH ei gefnogaeth i'r cynllun ac i'r tebygolrwydd y byddai busnesau lleol fel ei un ef yn gwneud cyfraniadau i'r arian torfol. Cytunodd yr aelodau eraill.</i></p>	

<p>Mae adroddiad terfynol Cymdeithas Teithwyr Rheilffordd Calon Cymru yn darparu manylion o'r daith. Gellir ei gylchredeg i aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol.</p> <p>Dynodwyd bod gan y cynllun gysylltiadau â'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy; caiff cynrychiolwyr Llwybr Rheilffordd Calon Cymru eu gwahodd i ddigwyddiad rhanddeiliaid y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.</p>	<p><b>CF</b></p> <p><b>CF</b></p>
<p><b>Eitem 5 Aelodau newydd/Ymddiswyddiadau</b></p> <p>Dim</p>	
<p><b>Eitem 6 Ymddiheuriadau</b></p> <p>Daeth ymddiheuriadau i law ac fe'u cofnodwyd.</p>	
<p><b>Eitem 7 Ystyried/Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 19/01/2017</b></p> <p>Cafodd y cofnodion eu gwirio a'u cymeradwyo, yn amodol ar ddau gywiriad:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1) Ychwanegu enw Gerald Brown at yr aelodau a oedd yn bresennol</li> <li>2) Gwall ar dudalen 3</li> </ol> <p>Bydd CF yn gwneud y cywiriadau ac yn eu hanfon i gael eu cyfieithu.</p>	<p><b>CF</b></p>
<p><b>Eitem 8 Materion sy'n Codi o'r Cofnodion</b> – na roddwyd ar yr agenda fel arall</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Eitem 6, pontydd - mae gan Gymdeithas Ceffylau Prydain gronfa pontydd gwerth hyd at £25k i gynorthwyo â phontydd llwybrau ceffyl, a hefyd Cronfa Gymunedol ar gyfer gwaith cynnal a chadw llwybrau ceffyl. A all Cyngor Sir Caerfyrddin ei defnyddio?</li> </ul> <p>CF – angen i JE drafod hyn yn uniongyrchol ag Alan Warner a/neu Kelly Shefford.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Eitem 6, gwaith ar Gilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig/Ffyrdd di-ddosbarth - cadarnhad o £16k gan yr adran Briffyrdd i wario ar Gilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig/Ffyrdd di-ddosbarth yn 2017-18.</li> <li>• Eitem 6, gwirfoddolwyr – dal yn disgwyl am restr o rolau ar gyfer partïon o wirfoddolwyr gan Alan Warner.</li> </ul> <p>MM – yn mynd i lunio rhestr ar gyfer GW i wirfoddolwyr gael helpu i arolygu Teithiau Cerdded Sirol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Eitem 7, is-bwyllgor Fforwm Mynediad Lleol Cymru – mae GW wedi e-bostio John Morgan am wybodaeth, dim ymateb hyd yma.</li> <li>• Eitem 8, Cerdded 3D – ddim ar waith eto, dim gwybodaeth bellach, MH i anfon e-bost.</li> </ul>	<p><b>MM</b></p> <p><b>MH</b></p>

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Eitem 9, Cytundeb Dirprwyo Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – gofynnodd MM am eglurhad ynghylch pryderon KB am drefniadau cynnal a chadw Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog mewn ardaloedd gwyllt etc.</li> <li>• Eitem 11, Cyfarfodydd y Fforwm Mynediad Lleol 2017 – GW, a fyddai modd datblygu gwefan Fforwm Mynediad Lleol ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin?</li> </ul> <p>CF – diffyg adnoddau dybryd o ran cymorth technegol yn y tîm Mynediad i Gefn Gwlad. Mae LP yn cyflawni'r gwaith ac yn alluog, ond mae ei hamser yn gyfyngedig. Ni allai'r tîm Mynediad i Gefn Gwlad gynnal gwefan ar wahân; mae tudalen y Fforwm Mynediad Lleol ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei diweddarau mor fuan â phosibl.</p> <p>RL – pa mor wydn allai'r tîm Mynediad i Gefn Gwlad fod, gyda'r lefelau staffio presennol, os byddai ond un aelod o staff i ffwrdd?</p>	<p><b>KB</b></p>
<p><b>Eitem 9 Cytundeb Dirprwyo Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog</b></p> <p>Rhoddodd CF ddiweddariad ynglŷn â'r sefyllfa ar hyn o bryd – mae dogfen drafft gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth ar gyfer sylwadau.</p> <p>Gofynnodd MH am i'r Fforwm Mynediad Lleol gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Cytundeb.</p>	<p><b>CF</b></p>
<p><b>Eitem 10 Timau Cyfreithiol a Chynnal a Chadw Cyngor Sir Caerfyrddin o ran Mynediad i Gefn Gwlad - y diweddaraf.</b></p> <p>Mae Cynorthwydd Chwiliadau rhan amser (Helena Burke HB) wedi dechrau yn nhîm Cyfreithiol Mynediad i Gefn Gwlad. Ar hyn o bryd mae unrhyw amser sbâr sydd gan HB yn cael ei ddefnyddio i lwytho data arolygon i'r System Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad (CAMS), sy'n mynd â llawer o amser o achos ansawdd y data.</p> <p>Cynigiodd RL i godi'r mater o ddefnyddioldeb data Pathwatch gyda phencadlys yr RA; ystyried oes modd ei wella.</p> <p>CF yn hapus i RL godi'r mater â'r RA.</p> <p>Dim newyddion diweddaraf yn achos tîm cynnal a chadw Mynediad i Gefn Gwlad.</p>	<p><b>RL</b></p>
<p><b>Eitem 11 Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol</b></p> <p>Diweddariad gan MH – mae'r adroddiad ar y gweill.</p>	
<p><b>Eitem 12 Eitemau Agenda ar gyfer y dyfodol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gorchmynion Rheoli Traffig – gwahodd John McEvoy i gyflwyno'r broses o ran Cilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig/Ffyrdd diddosbarth.</li> </ul>	<p><b>CF</b></p>



<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y newyddion diweddaraf am y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.</li> <li>• Ystadegau – hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2016-17, nid hyd at ddyddiad y cyfarfod nesaf.</li> <li>• Datganiad y Gweinidog dros yr Amgylchedd</li> </ul>	
<p><b>Eitem 13 Unrhyw Fater Arall</b></p> <p>Cyfarfod â Phenaethiaid Gwasanaeth – angen trefnu dyddiad ym mis Ebrill ar gyfer y cyfarfod.</p> <p>Gofynnodd KB am ystadegau ynghylch llwybrau ceffyl sydd ddim ar agor o achos Materion Cyfreithiol.</p>	<p><b>CF</b></p> <p><b>CF/LP</b></p>
<p><b>Eitem 14 Y Cyfarfod Nesaf</b></p> <p>11 Mai 2017 – Llandeilo, lleoliad i'w gadarnhau</p>	<p><b>CF</b></p>